



Menter yr Ifanc yw prif elusen y DU sy'n grymuso pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau personol a busnes.

Rydym o'r farn nad oes terfyn i botensial pobl ifanc yn y DU, ac nad yw addysg academiaidd ar ei phen ei hun yn ddigon. Ein nod yw grymuso pobl ifanc i ddarganfod, datblygu a dathlu eu sgiliau a'u potensial.

Mae Menter yr Ifanc yn gweithio'n uniongyrchol â phobl ifanc, eu hathrawon a rhieni, busnesau ac eraill sy'n ddylanwadol i adeiladu dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy i bob person ifanc ac i'r gymdeithas ehangach. Drwy ein rhaglenni cyflogadwyedd ac addysg ariannol ymarferol ac adnoddau a hyfforddiant athrawon, rydym am ddileu diweithdra ymhlith yr ifanc, helpu pobl ifanc i wireddu eu potensial y tu hwnt i addysg a grymuso cenedlaeth i ddysgu, gweithio a byw.



Her Degpunt yw her genedlaethol AM DDIM Menter yr Ifanc ar gyfer ysgolion uwchradd.

Mae Her Degpunt yn cynnig ffordd ryngweithiol iawn i fyfyrwyr feithrin sgiliau allweddol gan gynnwys creadigrwydd, gwydnwch a datrys problemau, gan ddefnyddio arian go iawn i fentro'n ofalus mewn busnes.

Caiff y myfyrwyr £10 ac un mis i sefydlu busnes - llunio syniad am gynnrych neu wasanaeth y gallant ei werthu a chael profiad ymarferol o sut beth yw bod yn entrepreneur.

Sut mae hyn yn gweithio?



4. Cadw'r elw

Bydd y cyfranogwyr mewn reolaeth lwyr o unrhyw elw a wneir ganddynt ac yn penderfynu ar beth i'w wario. Efallai y byddant yn rhoi eu helw i elusen neu weithgareddau ar gyfer yr ysgol, neu ddiwrnod allan.



5. Talu'n ôl ar gyfer y dyfodol

Ar ddiwedd yr Her Degpunt bydd y cyfranogwyr yn cymryd rhan yn y Gystadleuaeth Genedlaethol ac yn talu'r £10 yn ôl yn ogystal â chyfraniad etifeddol o £1 i alluogi Menter yr Ifanc i gefnogi hyd yn oed mwy o bobl ifanc y flwyddyn

Cofrestrwch nawr yn
bit.ly/tenner2017

@TannerFiverYE
bit.ly/tenner2017

Rhagor o wybodaeth
www.young-enterprise.org.uk

Dilynwch ni
twitter.com/youngenterprise

Hoffwch ni
facebook.com/youngenterpriseuk

Gwylwch ni
youtube.com/youngenterpriseuk



Young Enterprise
Head office:
Yeoman House
Sekforde Street
London
EC1R 0HF
Rhif Elusen Gofrestredig. 313697




Her Degpunt AM DDIM Menter yr

Meithrin sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc




1. Dyma Ddegpunt!

Caiff pob busnes £10 gan y Banc Degpunt.



2. Dechrau arni

Bydd y cyfranogwyr yn defnyddio'r cyfalaf cychwynnol hwn i ddechrau'r busnes, gan weithio'n unigol neu mewn grŵp.



3. Dal ati

Bydd gan y bobl ifanc bedair wythnos i wneud cymaint o elw â phosibl o'u Degpunt tra hefyd yn ceisio creu effaith gymdeithasol. Bydd cystadlaethau wythnosol i ennyn eu diddordeb, i'w hysgogi a chadw eu cymhelliant.

Buddiannau addysgol allweddol yr Her Degpunt

Mae'r her Degpunt yn eich helpu i gynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer bywyd yn y DU drwy wneud y canlynol:

- Cyfrannu fel rhan annatod o raglen gyrfaoedd sefydlog ysgol/coleg cyfan a chefnogi Meincnodau Gatsby ar gyfer Arweiniad Gyrfaoedd Da
- Hyrwyddo sgiliau cyflogadwyedd - cefnogi gofynion Ofsted a helpu disgyblion i baratoi ar gyfer y cam nesaf o ran addysg, hyfforddiant neu fywyd yn y gweithle
- Cynnig cyfleoedd ymarferol i archwilio mathemateg ariannol a datrys problemau mewn cyd-destunau go iawn
- Cefnogi ABGI – galluogi cyfranogwyr i wneud penderfyniadau hyddysg i fod yn fentrus ac uchelgeisiol
- Cynnig cyfle busnes go iawn i archwilio amrywiaeth o gyfleoedd gyrfa
- Rhoi cyfle i fyfyrwyr ddod yn ddinasyddion gweithredol drwy roi yn ôl i'w hysgol a'u cymuned wrth ddewis sut i ddefnyddio eu helw

Sut byddwn yn eich cefnogi

Byddwn yn darparu'r holl adnoddau ar-lein y bydd eu hangen arnoch chi a'ch myfyrwyr i wneud yr her yn llwyddiant gan gynnwys syniadau ac ysbrydoliaeth, gweithgareddau, astudiaethau achos ac arweiniad.

Gallwch hefyd gadw cofnod o gynnydd eich myfyrwyr gan ddefnyddio ein llyfrau log ar-lein.

"Roedd yn her wych ac mae cymaint o fyfyrwyr wedi dod o hyd i'w doniau mewnol ac wedi dysgu i gymryd risg"

Athro

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn bit.ly/tenner2017

Her Degpunt +

Helpwch eich myfyrwyr i gael y gorau o'u profiad Her Degpunt gyda'r Her Degpunt +

Mae'r Her Degpunt + yn eich galluogi i ddarparu sesiynau Lansio ac Adolygu ychwanegol i'ch myfyrwyr.

Mae'r sesiwn Lansio, a gyflwynir gan ein staff arbenigol ac a gefnogir gan wirfoddolwyr o'r sector busnes, yn cyflwyno'r Her Degpunt ac yn helpu myfyrwyr i greu syniadau busnes drwy gyfres o weithgareddau cyflym, cyffrous, ac mae'r sesiwn Adolygu yn galluogi myfyrwyr i gyflwyno eu taith Her Degpunt i banel o wirfoddolwyr a myfyrion ar y sgiliau cyflogadwyedd y maent wedi'u meithrin. Byddwn yn helpu myfyrwyr i ystyried sut y gallant ddefnyddio'r profiadau a'r sgiliau y maent wedi'u datblygu i baratoi ar gyfer cyfweiliadau sy'n seiliedig ar gymhwysedd gyda chyflogwyr yn y dyfodol.

Gallwn hefyd rhoi cymorth gwirfoddolwyr i chi i'ch helpu i gyflwyno'r Her Degpunt yn eich ysgol.

Buddiannau Allweddol

- Helpu i fod yn rhan o raglen gyrfaoedd sefydlog drwy ddod â busnes i mewn i'r ystafell ddosbarth
- Helpu i fynd i'r afael ag anghenion unigol myfyrwyr drwy ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gyflogwyr gwirfoddol
- Darparu 4 cyfarfod â chyflogwyr a chyflogwyr (2 ym mhob sesiwn)

Costau

£300 ar gyfer ddosbarth o faint arferol am sesiwn ½ diwrnod ar gyfer cymorth lansio NEU sesiwn adolygu.

£500 am y ddwy sesiwn ar gyfer dosbarth o faint arferol.

Mae cymorth cyflwyno ychwanegol ar gyfer sesiynau wythnosol ar gael.

I gael gwybod mwy e-bostiwrch tenner@y-e.org.uk

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn bit.ly/tenner2017

Ffeithiau allweddol



82%

o gyfranogwyr yn teimlo bod yr Her Degpunt wedi rhoi cyfle unigryw iddynt ddysgu a chyflawni pethau newydd



£98

Elw pob tîm ar gyfartaledd



84%

o athrawon wedi'u denu at yr Her Degpunt oherwydd y 'profiad go iawn' y mae'n ei gynnig i bobl ifanc



£22,382

Elw a roddwyd i elusennau

Cymerwyd yr ystadegau o werthusiad athrawon a myfyrwyr o Her Degpunt 2016

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn bit.ly/tenner2017

Barod am yr her?

Gall pobl ifanc 11-19 oed gymryd rhan trwy eu hysgol, coleg neu sefydliad ieuenticid - rhaid i dimau cael eu cofrestru gan athro, darlithydd neu arweinydd.

Caiff yr her Degpunt ei chynnal rhwng 27 Chwefror a 24 Mawrth 2017. Mae cofrestrïadau'n agor ar 28 Tachwedd 2016.

Mae'n bosibl y gallwch gwblhau'r her y tu allan i'r dyddiadau hyn. E-bostiwrch tenner@y-e.org.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Oes gennych gwestiwn?
Ffoniwch ni ar 020 7549 1980 neu e-bostiwrch tenner@y-e.org.uk

Cofrestrwch nawr yn bit.ly/tenner2017

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn bit.ly/tenner2017